

Paratoi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ar gyfer Torfaen

Adroddiad terfynol drafft a gyflwynwyd i
Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan
Ymchwil Arad

Ebrill 2018

Ymchwil Arad
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.arad.wales

ymchwil
arad
research

Cynnwys

1. Cyflwyniad a chefnidir	4
1.1 Methodoleg	4
1.2 Ymchwil desg	4
1.3 Arolwg cyhoeddus	Error! Bookmark not defined.
1.4 Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid	Error! Bookmark not defined.
1.5 Cyd-destun cefndirol.....	Error! Bookmark not defined.
2. Canfyddiadau ymchwil : y sylfaen dystiolaeth.....	9
2.1 Safleoedd llyfrgell yn Nhorfaen.....	9
2.2 Cydleoli gwasanaethau	10
2.3 Datblygu ac adeiladu ar wasanaethau	11
2.4 Cynhyrchu refeniw	14
2.5 Cysylltiadau i lyfrgelloedd eraill / Canllawiau Llywodraeth Cymru....	Error! Bookmark not defined.
2.6 Adnoddau	Error! Bookmark not defined.
2.7 Staffio a threfniadau gwirfoddoli	17
2.8 Casgliadau cyffredinol yr ymchwil	18
3. Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen 2018-2023	Error! Bookma
Ein Gweledigaeth, Egwyddorion Allweddol a'n Hamcanion	Error! Bookmark not defined.
3.1 Cyflwyniad	20
3.2 Ein Gweledigaeth	20
3.3 Ein Hegwyddorion	21
Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen: Ein Blaenoriaethau	22
3.4 Tair llyfrgell Torfaen.....	22
3.5 Ein gwasanaeth ac adnoddau	Error! Bookmark not defined.
3.6 Gweithio mewn partneriaeth.....	25
3.7 Staffio	25
3.8 Cynhyrchu refeniw ac adnoddau	26
3.9 Monitro a gwerthuso	26
3.10 Sut beth fydd llwyddiant yn 2023.....	26
4. Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 1

1. Cyflwyniad a chefnidir

Penododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Ymchwil Arad i ymgymryd â pharatoi strategaeth newydd ar gyfer modelu a chyflwyno Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen, gan gynnwys cynnal ymchwil ac ymgynghoriadau. Dyma'r strategaeth gyntaf a ddatblygwyd ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen a bwriedir iddo ddarparu strwythur a ffocws i'w gyflwyno dros y pum mlynedd nesaf.

1.1 Methodoleg

Mae Arad wedi datblygu ymagwedd dulliau cymysg i'r astudiaeth sy'n cynnwys ymchwil desg, ymgynghoriadau ag ystod o randdeiliaid allweddol a gweithio gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen i ddatblygu a dadansoddi arolwg o drigolion ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth yn y fwrdeistref.

1.2 Ymchwil desg

Roedd yr ymchwil desg yn canolbwyntio ar sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hysbysu gan bolisiau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac yn cyd-fynd â hwy. Adolygodd Arad ystod o ddogfennau gan gynnwys Torfaen glân a gwyrdd; Codi Cyrhaeddiad Addysgol; a Chefnogaeth i Drigolion mwyaf bregus Torfaen ynghyd â Chynllun Corfforaethol 3 Torfaen (CP3). Ystyriodd yr ymchwil desg bolisiau a safonau cenedlaethol, gan gynnwys 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol'¹; a 'Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli'², a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' yn ogystal â'r dadansoddiad a'r ymchwil a wnaed gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2017 ac y'i atodir yn Atodiad 1.

1.3 Arolwg cyhoeddus

Bu Arad yn gweithio gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen i ddylunio a dadansoddi arolwg cynhwysfawr o drigolion Torfaen. Dosbarthwyd copïau papur ac ar-lein i ddefnyddwyr llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol ar draws y fwrdeistref. Gwnaed ymdrechion i ymgysylltu â phobl nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth. Derbyniodd yr arolwg cyhoeddus 1,484 o ymatebion.

Roedd y themâu allweddol a archwiliwyd yn y broses ymgynghori cyhoeddus hon yn cynnwys:

Math o wasanaethau llyfrgell - Gwasanaethau blaenoriaeth y mae trigolion Torfaen yn eu gwerthfawrogi neu'n disgwyl eu darparu o lyfrgelloedd lleol.

¹ Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Y chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020 <http://gov.wales/docs/drah/publications/170331-connected-and-ambitious-libraries-en.pdf>

² Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Y fframwaith datblygu strategol ar gyfer llyfrgelloedd Cymru 2012-2020 <http://gov.wales/docs/drah/publications/111104librariesinspireen.pdf>

Mynediad - pryd, a sut mae trigolion lleol am gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael yn y llyfrgelloedd.

Gwasanaethau eraill – pa wasanaethau eraill y byddai'r trigolion yn hoffi eu gweld o'u cyfleusterau llyfrgell lleol.

1.4 Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

Cynhaliodd Arad gyfweiliadau ffôn ac wyneb yn wyneb gydag ystod o randdeiliaid allweddol o Gyngor Torfaen gan gynnwys yr Arweinydd, y Cabinet ac Aelodau Craffu ac uwch staff o ystod o adrannau; Staff Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen; cynrychiolwyr llyfrgelloedd o awdurdodau lleol cyfagos, cynrychiolydd o MALD a sefydliadau'r trydydd sector. Arweiniwyd y cyfweiliadau a'r dadansoddiad a'r adroddiadau dilynol gan nifer o themâu allweddol, gan gynnwys:

Cyflenwi:

Sut y gellir darparu gwasanaethau llyfrgell presennol yn fwy effeithlon tra'n cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth leol ar yr un pryd?

Pa wasanaethau cyhoeddus ychwanegol y gellid eu cyflenwi a'u lleoli ochr yn ochr â gwasanaethau'r llyfrgell.

Cynhyrchu refeniw ychwanegol:

Pa gyfleoedd sydd ar gael i gynyddu cynhyrchu incwm trwy'r gwasanaethau llyfrgell, e.e. gwasanaethau cynnal a ddarperir gan sefydliadau allanol am ffi rhentu.

Llywodraethiant a phartneriaeth

Pa strwythurau llywodraethiant a phartneriaeth y gellid eu hystyried e.e. darparu gwasanaethau llyfrgell ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos?

1.5 Cyd-destun cefndirol

Lleolir Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Torfaen o fewn Gwasanaethau Economi, Menter ac Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, sydd ar hyn o bryd yn rheoli tair llyfrgell sy'n gweithredu yng Nghwmbwrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon. Mae Torfaen yn ceisio datblygu model arloesol a chynaliadwy ar gyfer y gwasanaethau llyfrgell yn y fwrdeistref; un sy'n gweithredu ar gost is ac yn darparu mwy o effaith, os yn bosibl. Bydd yn cwmpasu'r cyfnod sy'n mynd ymlaen o fis Ebrill 2018 tan 2023.

Darperir gwasanaethau yn unol â'r rhwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu "Gwasanaethau Llyfrgell cyhoeddus cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno gwneud defnydd ohono, gan roi sylw i":

- Yr hyn a ddarperir o ran deunyddiau, adnoddau a gweithgareddau
- Beth sy'n cael ei wneud i annog defnydd gan blant ac oedolion

Darperir gwasanaethau hefyd yn unol â Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: sef chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20. Yn gyntaf, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith o safonau ar gyfer darparu gwasanaethau

llyfrgell yng Nghymru yn 2003 ac mae gan bob awdurdod llyfrgell rwymedigaeth i adrodd ar eu perfformiad cyfredol mewn perthynas â'r safonau a'r hawliau hyn ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Nod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yw diwallu anghenion cwsmeriaid ynglŷn â gwybodaeth; Dysgu Gydol Oes; cyfoethogiad diwylliannol; a mwynhad personol. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn Nhorfaen yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth cymunedol / gwybodaeth hirfaith gyda'r gwasanaeth dealltwriaeth dda 'benthycia llyfrau'. Maent yn cynnwys:

- Mynediad PC a rhyngwyd am ddim i bawb.
- Cefnogaeth i Geiswyr Gwaith (gan gynnwys mynediad at Wefannau, helpu i lywio gwefannau a datblygu'r sgiliau TG angenrheidiol).
- Cefnogaeth i hawlwr Credyd Cynhwysol eu cyflwyno'n lleol (gan gynnwys mynediad at Wefannau, helpu i lywio gwefannau a datblygu'r sgiliau TG, dadgodio a dehongli angenrheidiol ar gyfer Saesneg Plaen).
- Sgiliau TG Sylfaenol / Sesiynau galw heibio llythrennedd gwybodaeth ar gyfer pobl dros 16 oed ym mhob llyfrgell (yn cynnwys defnydd o dabledi ac e-ddarllenwyr ac yn y blaen).
- Argraffiadau am ddim a llungopio ar gyfer Ceiswyr Gwaith (o fewn defnydd rhesymol).
- Gwybodaeth am Iechyd a Llesiant a Gwasanaeth Cymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda salwch hirdymor a chyflyrau cronig.
- Llyfrau ar Bresgripsiwn (a ragnodir gan feddygon teulu sy'n cymryd rhan ac yn seiliedig ar Therapi Ymddygiad Gwybyddol).
- Digwyddiadau iechyd aml-asiantaethol.
- Gwasanaeth Llyfrgell Cartref (ar gyfer unigolion sy'n gaeth i'w cartrefi ar draws y fwrdeistref).
- Grwpiau darllen a rennir therapiwtig mewn partneriaeth ag ystod o elusennau.
- Sesiynau arbed arian ar-lein misol.
- Rhannu Darllen un i un. (Sesiynau wythnosol a ddarperir gan wirfoddolwyr i unigolion sy'n gaeth i'w cartrefi).
- Sesiynau Hanes Teulu yn Llyfrgell Blaenafon (a ddarperir ar y cyd gan staff y llyfrgell a gwirfoddolwyr o Amgueddfa Cordell) ac un arall yn Llyfrgell Cwmbwrân mewn partneriaeth ag Archifau Gwent.
- Pob plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell (Prosiect i gofrestru pob disgybl blwyddyn 4 yn Nhorfaen fel aelod o'r llyfrgell), yn cynnwys grwpiau ysgol sy'n ymweld â'r llyfrgell, benthycia llyfrau a derbyn bag llyfr am ddim.
- Dechrau Da a Dechrau Da Bookcrawl; Amseroedd rhigymau babi; Iaith a Chwarae; Amser Stori dan bump oed; Sesiynau stori a chreffft gwyliau ysgol ar gyfer plant oedran cynradd; Sesiynau Stori a Lego.

Wrth ystyried opsiynau gwasanaeth llyfrgelloedd wrth symud ymlaen, mae hefyd yn bwysig nodi bod y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi mynd trwy newidiadau gwasanaeth parhaus. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi gostwng ei gyllideb o £315,000 (gostyngiad o 26%) trwy ostyngiadau blaenorol yn y gwasanaeth, gan gynnwys cau un llyfrgell a 2 llyfrgell symudol. Cyflawnwyd y gostyngiadau costau trwy ddefnyddio stoc adeiladu'r Cyngor yn fwy effeithlon, costau cynnal a chadw llai gan gynnwys costau gweithwyr, costau rhedeg adeiladau, trethi, rhenti a chyfraddau.

Y mesurau effeithlonrwydd diweddaraf a gynhaliwyd yn 2015/16 o'r gwasanaeth

Llyfrgelloedd a Gwybodaeth oedd llyfrgell Blaenafon yn cyd-leoli gyda'r Ganolfan Treftadaeth y Byd, TIC a Gwasanaethau Cwsmeriaid a thrwy gyd-leoli Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Llyfrgell Cwibrân.

Yn ôl Adroddiad Asesiad Blynyddol 2016-17 ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, roedd Torfaen yn cwrdd â'r holl 18 hawl craidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, llwyddodd Torfaen i gyflawni 2 ddangosydd yn llawn, 3 yn rhannol a methu â chyflawni 2. Mae'r adroddiad yn amlinellu bod 'Torfaen yn dangos tystiolaeth dda o effaith ei wasanaeth llyfrgell. Mae'r ymgysylltiad rhagorol yn dangos cryfder penodol mewn meysydd iechyd a llesiant ac allgymorth. Fodd bynnag, mae lefelau isel o staffio a buddsoddiad yn cael effaith negyddol ac fe fydd toriadau cyllideb yn y dyfodol yn niweidio ymhellach wasanaeth sydd ar hyn o bryd mewn cyflwr braidd yn fregus.'

Ar 1^{af} Mawrth 2016 cytunwyd ar gynigion arbed cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/2018 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Un o'r mesurau a gytunwyd oedd adolygiad o Wasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth y Cyngor gyda mesur lliniaru arbedion o £250,000. Yn dilyn y penderfyniad hwn ymgwymerwyd â rhaglen helaeth o waith ymchwil desg i adolygu'r opsiynau i fodloni'r arbedion cyllidebol angenrheidiol.

Mae crynodeb o'r opsiynau fel a ganlyn:

1. Safleoedd a Rennir gyda Gwasanaethau Addysg Oedolion.
2. Cau Un Llyfrgell.
3. Lleihau gwasanaeth 'benthyca llyfrau' ym mhob Llyfrgell trwy gyfleusterau hunan-wasanaeth - Dau opsiwn:
 - a. Lleihau gwasanaethau benthyca llyfrau trwy gyfleusterau hunan-wasanaeth ym mhob un o'r tair llyfrgell i 3 diwrnod yr wythnos.
 - b. Lleihau'r gwasanaethau benthyca llyfrau trwy gyfleusterau hunan-wasanaeth ym Mlaenafon a Phont-y-pwl i 2½ diwrnod yr wythnos a lleihau Cwibrân i 4 diwrnod yr wythnos.

Darparodd yr ymchwil desg atebion i'r cwestiynau canlynol a ofynnwyd gan aelodau'r pwyllgor mewn perthynas â'r opsiynau a amlinellir uchod:

1. Dadansoddiad o gostau llyfrgell pob llyfrgell unigol.
2. Oriau agor ac effeithiau unrhyw ostyngiadau ar y gwasanaeth.
3. Dadansoddiad o'r newidiadau sylweddol a gyflwynwyd ym Mlaenafon a Chwibrân.
4. Dealltwriaeth o p'un ai yw nifer yr ymweliadau yn ymweliadau corfforol neu rithwir.
5. Adroddiad tuedd wedi'i ddiweddarau ar nifer yr ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth (fel y darparwyd yn flaenorol ym mis Mehefin 2015) ar gyfer pob llyfrgell.
6. Gwybodaeth gefndirol a dadansoddiad ar y rhesymeg y tu ôl i'r opsiynau a gyflwynir.
7. Dadansoddiad o amseroedd agor llyfrgelloedd yn Nhorfaen o'i gymharu â llyfrgelloedd eraill ar draws y wlad - (Manceinion, Newcastle, Hampshire a Gwent Fwyaf).
8. Rhesymau pam fod y llyfrgelloedd ar agor ar adegau penodol.
9. Byddai unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau / argymhellion ynghylch yr adroddiad a gyflwynwyd.
10. Manylion o amgylch prydles llyfrgell Cwibrân.
11. Manylion am berchnogaeth / cyfrifoldeb yr adeiladau a ddefnyddir.

12. Nifer y staff a gwirfoddolwyr.
13. Manylion o amgylch niferoedd / data gwirfoddolwyr a gweithgaredd, gan gynnwys astudiaethau achos - mynediad cymunedol a gweithgaredd diwylliannol - sut mae hynny'n cael ei gymesuro a'i fesur.
14. Gwybodaeth am y defnydd o beiriannau gwerthu mewn llyfrgelloedd.
15. Cost sylfaenol agor pob llyfrgell bob dydd - gorbenion i gynnwys staff, gwresogi, goleuo, costau prydles, ac ati.
16. Ystadegau ar grwpiau defnyddwyr - canran o ddefnyddwyr llyfrgelloedd mewn grwpiau oedran.
17. Gwybodaeth ymchwil ac adborth ar awdurdodau lleol eraill.
18. Manylion ar yr ystod o syniadau arloesi a archwiliwyd.
19. Adborth arolwg cwsmeriaid.

2. Canfyddiadau ymchwil: y sylfaen dystiolaeth

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r sylfaen dystiolaeth a oedd yn sail i ddatblygiad y strategaeth a gyflwynir yn adran 3 yr adroddiad hwn. Roedd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys cyfweiliadau â rhanddeiliaid, trafodaethau grŵp gyda staff llyfrgelloedd Torfaen ac ymgynghoriad cyhoeddus ar ffurf arolwg. Crynhoir y canfyddiadau yn yr adran hon o dan y themâu canlynol:

- Safleoedd Llyfrgell yn Nhorfaen;
- Cydleoli gwasanaethau;
- Datblygu ac adeiladu ar wasanaethau;
- Cynhyrchu referniw;
- Cysylltiadau â llyfrgelloedd eraill yng Nghymru / canllawiau Llywodraeth Cymru;
- Adnoddau; a
- Trefniadau Staff / Gwirfoddoli

2.1 Safleoedd llyfrgell yn Nhorfaen

Darperir gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth Torfaen ar draws tri safle llyfrgell yn Nhorfaen - Cwmbrân, Blaenafon a Phont-y-pŵl. Mae'r sail dystiolaeth yn awgrymu pwysigrwydd pob un o'r tri safle presennol hyn wrth ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth ansawdd ar draws Torfaen. Nododd cyfweiliadau â rhanddeiliaid a staff gefnogaeth sylweddol i barhad y model hwn. Adleisiwyd y farn hon gan ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd:

“Do not close existing libraries! If necessary, keep all branches open but reduce hours of opening. Then if financial circumstances improve opening hours can be increased. A library closure will never be reversed.” **Aelod o'r cyhoedd**

Nododd rhanddeiliaid a staff fod llyfrgelloedd ar safle yn dal yn bwysig iawn i'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr adborth gan yr arolwg cyhoeddus. Yn ogystal, roedd consensws bod y safleoedd presennol wedi'u lleoli orau ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus a rhwyddineb mynediad i bob grŵp carfan defnyddwyr. Nododd sawl rhanddeiliad fod lleoliadau canol y dref yn parhau i fod yn 'hanfodol' ac y gellid eu cyfalafu ar gyfer darparu gwasanaethau eraill y Cyngor a dinasyddion trwy gydleoli.

Mae'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn dangos bod aelodau'r cyhoedd yn ei chael hi'n fuddiol gallu cael mynediad at y gwasanaethau ar draws y tri safle llyfrgell gwahanol. Mae aelodau'r cyhoedd yn gweld hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan hoffent gadw llyfr a gedwir gan safle arall neu pan fydd un llyfrgell ar gau, gallant ymweld ag un o'r safleoedd eraill.

*“cross site reservations - *excellent* service to be able to collect a reserved book held by another site.”* **Aelod o'r cyhoedd**

Nododd sylwadau gan staff yr angen am weithio mwy cydgysylltiedig rhwng y tri safle llyfrgell, fel bod y tri safle yn dod ynghyd fel un gwasanaeth yn hytrach na chael eu hystyried fel tri gwasanaeth ar wahân yn Nhorfaen.

Mae'r strategaeth a amlinellwyd yn adran 3 felly yn cymryd parhad gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth yn y 3 safle presennol o Flaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl fel man cychwyn. Er bod cyfyngiadau ariannol yn cael eu cydnabod, mae cefnogaeth rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn aruthrol ar gyfer parhad y model hwn. Byddai hyn yn darparu Torfaen gyda'r strwythurau a'r lleoliadau i gadw llyfrgelloedd yng nghanol ei chymunedau, bodloni rhwymedigaethau statudol a darparu ffocws ar gyfer cyflawni'r strategaeth newydd.

2.2 Cydleoli gwasanaethau

Roedd y posibilrwydd o gydleoli gwasanaethau â llyfrgelloedd yn ganolfannu allweddol i randdeiliaid. Mae hyn yn cysylltu â dadleuon ehangach sy'n ymwneud â dyfodol ystad Cyngor Torfaen, yr adolygiad gwasanaeth parhaus a chyflwyno gwasanaethau o ansawdd ac effeithlon i ddinasyddion yng nghyd-destun setliadau ariannol is. Ystyriodd rhanddeiliaid y gall llyfrgelloedd chwarae rhan bwysig yn y symud tuag at ddeall a defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn fwy effeithiol oherwydd, fel sefydliadau dibynadwy, mae llyfrgelloedd yn darparu 'pwynt mynediad cyntaf i ddinasyddion' ac maent yn lleoliadau canolog. Cefnogir hyn gan ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd gan fod 99.2% o'r ymatebwyr yn nodi bod y llyfrgell yn lle diogel i ymweld â hwy a dywedodd 90.2% ei bod yn lle cynhwysol i ymweld â hi.

Ystyriwyd pob un o dair llyfrgell Torfaen gan randdeiliaid i weithredu fel canolfannau cymunedol ac ystyriwyd hyn yn gyfle pellach i gydleoli gwasanaethau ac i ymgysylltu â holl aelodau eu cymunedau. Felly mae llyfrgelloedd Torfaen yn cynrychioli cyfle am synergeddau da gyda gwasanaethau eraill sy'n wynebu cwsmeriaid, ac mae hyn yn ffocws allweddol i'r strategaeth.

"It's a non-threatening place to get information - you don't feel you're in a Council building. It's for people who don't know how to access information, who often don't have a support network or don't have resources." **Rhanddeiliad**

Mae hon yn broses a ddechreuwyd eisoes yn y gwasanaethau llyfrgelloedd a gwybodaeth yn Nhorfaen. Ar hyn o bryd mae Blaenafon yn gweithredu mewn lleoliad cydleoli gyda Gwasanaethau Cwsmeriaid o fewn safle Treftadaeth y Byd UNESCO; tra bod Cwmbrân wedi arwain ar gydleoli rhai gwasanaethau, e.e. Gwasanaethau Cwsmer ac Undeb Credyd. Adroddir bod y cydleoli hwn hefyd wedi cynhyrchu arbedion cost. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod potensial i gyflawni hyn ymhellach fel rhan o'r adolygiad gwasanaeth ehangach yn ogystal â chyfrannu at fynd i'r afael â 'blinder atgyfeirio' ymysg dinasyddion.

Mae'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn dangos gwerthfawrogiad o wasanaethau eraill yn cydleoli yn y llyfrgelloedd, megis Gwasanaethau Cwsmeriaid yn

Ilyfrgell Cwibrân. At hynny, awgrymodd rhai aelodau o'r cyhoedd y dylid darparu mwy o wasanaethau cynghorau / cyhoeddus yn y llyfrgelloedd. Fodd bynnag, awgrymodd rhai sylwadau gan aelodau'r cyhoedd eu bod yn llai croesawgar o'r syniad o gydleoli. Roedd y sylwadau hyn yn dueddol o ymwneud â naill ai diffyg lle ar gael neu y gallai cyflwyno mwy o wasanaethau wahardd y prif wasanaethau y dylai llyfrgell eu cynnig.

"Cwibrân Library already shares its space with another Council Department. Don't think there is room for anything else" **Aelod o'r cyhoedd**

"I believe in keeping the Library as a Library and not try to mix too many functions and services." **Aelod o'r cyhoedd**

I rai rhanddeiliaid o fewn y Cyngor, mae'r tair llyfrgell yn cynnig mecanwaith i ddarparu cynlluniau corfforaethol a llesiant sy'n gysylltiedig â CP3, wedi'u hehangu i gynnwys partneriaid perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r agenda addysg / creu swyddi / digidol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys darparu gwybodaeth am dai cymdeithasol, gweithgareddau yn ymwneud â Strategaeth 50+ Torfaen a'r Cyngor ehangach a gwybodaeth am wasanaethau cymdogaeth. Ar gyfer y rhanddeiliaid hyn, mae angen ystyried rolau newydd i lyfrgelloedd fod yn rhan o bolisïau ehangach y cyngor sy'n ymwneud â datblygu ansawdd a gwasanaethau hygyrch sy'n gysylltiedig ag anghenion dinasyddion, yn ogystal â chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhannu risg a chostau.

"This links to the wider change management process – how does Torfaen do customer services, where do they overlap, how can we be resilient and sustain services?" **Rhanddeiliad**

Er gwaethaf y potensial ar gyfer cydleoli, nododd nifer o staff a rhanddeiliaid fod gofod yn brin yn y safleoedd presennol, felly gall hyn gyfyngu ar y cyfle i gydleoli gwasanaethau ymhellach. Cafwyd awgrymiadau y gallai adleoli nifer o wasanaethau'r Cyngor sy'n wynebu cwsmeriaid, gan gynnwys llyfrgelloedd, mewn un adeilad (o fewn pob un o'r tair tref) gynnig ateb tymor hwy ar gyfer pwynt canolog. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth y byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf mawr, gan osod llyfrgelloedd yng nghyd-destun cynlluniau strategol ehangach ar gyfer datblygu canol trefi ar draws Torfaen.

Gan ystyried y farn hon, mae'r strategaeth felly'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r tri safle presennol a'r gwasanaethau presennol tra'n archwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid yn unol ag amcanion CP3.

2.3 Datblygu ac adeiladu ar wasanaethau

Er bod rhanddeiliaid, staff a'r cyhoedd yn cydnabod mai prif wasanaeth y llyfrgelloedd, a'r un mwyaf blaenllaw, yw benthyca llyfrau, nid dyma'r unig wasanaeth y gellir ei gynnig, ac a gynigir.

"It's not all what the library is about, but it is a major part of it." **Aelod staff**

Awgrymodd rhanddeiliaid, staff a'r cyhoedd amrediad o wasanaethau eraill y gallai llyfrgelloedd Torfaen eu cynnig, neu mewn rhai achosion, barhau i'w cynnig fel rhan o ymagwedd fwy ymgorfforedig, gan gynnwys cyngor Credyd Cynhwysol (sydd eisoes yn digwydd yn llyfrgell Cwmbrân), gofal cwsmer iechyd meddyliol a chorfforol e.e. y Gymdeithas Strôc a chyngor dinasyddion.

Soniodd aelodau'r cyhoedd yn benodol am yr "ystod ardderchog o wasanaethau sydd ar gael". Adleisiwyd y farn hon gan rhanddeiliaid a oedd yn canmol cyfraniad llyfrgelloedd Torfaen i'r dyfodol economaidd a seilwaith trefi, iechyd a llesiant, mynd i'r afael â thlodi, sgiliau digidol a mynediad i wasanaethau digidol, addysg a byw'n gynaliadwy.

"The library service has gone way beyond books. There's so many computer services offered and so many groups meet here now. It's just changed beyond recognition." **Rhanddeiliad**

Dywedodd staff y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth fod materion cenedlaethol ehangach megis y ffocws ar agenda iechyd a llesiant, trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn codi eu proffil. Roeddent o'r farn bod gan hyn y potensial i ganiatáu i Dorfaen gyflawni ei rhwymedigaethau CP3, yn enwedig yn ymwneud â chefnogi anghenion dinasyddion mwyaf bregus Torfaen a gwella canlyniadau addysgol.

Adroddir bod y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Iechyd a Llesiant yng Nghwmbrân yn cael ei defnyddio'n dda ac fe'i ystyrir yn fodel arloesol ar lefel Cymru gyfan. Roedd 76.9% o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd o'r farn bod y gwasanaeth hwn naill ai'n bwysig iawn (51.6%) neu'n weddol bwysig (25.3%) a 76.7% o'r ymatebwyr yn cydnabod eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a llesiant yn y llyfrgell. At hynny, mae'r gwasanaeth wedi galluogi cysylltiadau da i'w datblygu gyda'r gymuned ac yn annog defnyddwyr newydd posibl i'r adeilad.

"Torfaen does elements very well e.g. health and wellbeing and their commitment to supporting their communities – they have a huge impact on them. They have also developed strong partnerships and outreach programmes, their project with the Wellcome Trust is a good example." **Rhanddeiliad**

Nododd rhai rhanddeiliaid yr ategu cydraddoldeb rhwng Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a'r gwasanaethau a gynigir gan lyfrgelloedd a'r potensial ar gyfer rhannu adnoddau ynglŷn â hybu a chefnogi sgiliau a chyflogadwyedd, pobl bregus, dysgu oedolion, llythrennedd digidol a dilyniant unigolion i gael gwaith.

Ystyrir bod llyfrgelloedd eisoes yn darparu cymorth cyflogaeth i unigolion yn effeithiol e.e. Clybiau Swyddi, ysgrifennu CV, gyda llawer o enghreifftiau wedi'u rhoi eisoes o'r cymorth anffurfiol a roddir gan staff i geiswyr gwaith. Roedd 76.6% o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd o'r farn fod cefnogaeth i geiswyr gwaith gyda TG a mynediad naill ai'n bwysig iawn (59.7%) neu wasanaeth eithaf pwysig (16.9%) a gynigir gan y llyfrgelloedd ar hyn o bryd. At hynny, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r cymorth cyflogaeth hwn fod yn rhan o ddull mwy ffurfiol, gan gysylltu eto â nodau CP3.

Mae llyfrgelloedd Torfaen yn rhoi ffocws cryf ar ddarparu gwasanaethau i blant. Roedd y staff yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau hyn ac, yn arbennig, cysylltiadau llyfrgelloedd presennol gydag ysgolion. Darlunnir hyn ymhellach gan ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd: dywedodd 86.4% o'r ymatebwyr fod y cynllun 'Pob Plentyn yn Aelod Llyfrgell' naill ai'n bwysig iawn (73.3%) neu wasanaeth eithaf pwysig (13.1%) a dywedodd 86% fod yr ymweliadau ysgol ar gyfer sgiliau adrodd storïau a llyfrgell naill ai yn bwysig iawn (70.4%) neu'n wasanaeth eithaf pwysig (15.6%) y mae'r llyfrgell yn ei gynnig.

Mae cyfran fawr o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau a digwyddiadau i blant, megis amser hwyl, sesiynau crefft a'r her ddarllen. Dywedodd 86.3% o'r ymatebwyr fod Her Darllen yr Haf naill ai'n bwysig iawn (70.9%) neu'n eithaf pwysig (15.4%) ac roedd 83% yn dweud bod sesiynau stori a chrefft y plant yn ystod gwyliau ysgol naill ai'n bwysig iawn (62.5%) neu'n eithaf pwysig (20.5%). At hynny, nododd aelodau'r cyhoedd fod y llyfrgelloedd wedi helpu eu plentyn yn arbennig i gael mwy o fwynhad o lyfrau a straeon (93.2%), darllen yn well (75.4%) a dysgu a chanfod mwy o bethau (72.8%). Awgrymodd rhai o'r cyhoedd y gallai'r llyfrgelloedd gynnig mwy o'r gwasanaethau hyn i blant.

Mae'r cyhoedd hefyd yn gwerthfawrogi gweithgareddau a digwyddiadau grŵp a gynigir gan y llyfrgelloedd ar hyn o bryd. Roedd 78.5% o'r ymatebwyr o'r farn bod y grwpiau darllen i oedolion naill ai'n bwysig iawn (55.3%) neu'n eithaf pwysig (23.2%) a 69.1% o'r farn bod y gweithgareddau cymdeithasol fel clybiau Knit a Natter a Lego naill ai'n bwysig iawn (43.3%) neu'n weddol bwysig (25.8%). Ystyrir bod y gwasanaethau hyn yn cynnig cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, a all fod yn bwysig wrth leihau unigrwydd cymdeithasol a gwella llesiant, yn enwedig i bobl sy'n fregus.

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y llyfrgelloedd a ystyriwyd yn llai pwysig gan y cyhoedd yn cynnwys DVDs (dywedodd 32.7% ei fod yn bwysig iawn a dywedodd 26.3% ei fod yn eithaf pwysig) a chylchgronau ar-lein (dywedodd 31.1% ei fod yn bwysig iawn a dywedodd 23.7% yn eithaf pwysig). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod lle i flaenoriaethu gwasanaethau eraill a drafodir yn yr adran hon yn ychwanegol at DVDs a chylchgronau ar-lein.

Roedd hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigir yn well yn neges allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o rai o'r gwasanaethau y mae'r llyfrgelloedd yn eu cynnig. Mae hyn yn awgrymu'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o amrediad eang y gwasanaeth llyfrgelloedd. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ddulliau hysbysebu megis cyfryngau cymdeithasol a phosteri.

Mae parhad a, lle bo modd, ehangu'r gwasanaethau a drafodir yn yr adran hon, trwy ffynonellau cyllid neu bartneriaeth arall, felly yn elfen allweddol o'r strategaeth newydd. Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo i ymgysylltu'n well â thrigolion Torfaen a gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael.

2.4 Cynhyrchu refeniw

Er bod cytundeb cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid a staff y dylid archwilio pob posibilrwydd ar gyfer gwasanaeth llyfrgelloedd i gynhyrchu refeniw, cydnabuwyd hefyd y gallai fod cyfleoedd cyfyngedig yn y dyfodol ar gyfer hyn. Cydnabu rhanddeiliaid a staff ffocws blaenorol ar hyn gan roi'r gyriant hwn i gynhyrchu incwm yng nghyd-destun materion cyllido ar draws holl sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r diffyg cyfleusterau a'r gofod o fewn y tair llyfrgell i greu incwm pellach sylweddol.

Er hynny, amlinellodd rhanddeiliaid a staff ystod o gyfleoedd cyllido posibl i'w harchwilio. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws pellach ar hyrwyddo gwasanaethau ennill ffioedd a thaliadau sefydliadau am eu cyfarfodydd a'u digwyddiadau. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer cynhyrchu incwm yn cynnwys gweithio gyda grwpiau gwirfoddol i gael gafael ar arian e.e. Y Gronfa Loteri Fawr, yn chwilio am ffynonellau cyllid newydd yn weithredol fel y cais llwyddiannus am arian Wellcome Trust (ar hyn o bryd, Torfaen yw'r unig awdurdod llyfrgell yng Nghymru i dderbyn hyn).

Mae'r Strategaeth yn cefnogi ffocws newydd ar gyfer cynhyrchu refeniw ac mae'n darparu rhywfaint o bwynt gweithredu pellach at hyn. Serch hynny, mae'n rhaid cydnabod cyfyngiadau gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth i gynhyrchu refeniw a bod mathau eraill o gyllid sy'n seiliedig ar brosiectau yn opsiwn mwy cynaliadwy a realistig.

2.5 Cysylltiadau i lyfrgelloedd eraill / Canllawiau Llywodraeth Cymru

Mae llyfrgelloedd Torfaen eisoes yn gweithio'n effeithiol o fewn canllawiau a systemau cenedlaethol i sicrhau mynediad gwell i lyfrau a chynnal stoc llyfrau cytbwys e.e. Consortiwm Prynu Llyfrau Cymru. Ystyrir y mathau hyn o fentrau gan staff i fod eisoes yn arbed arian ac amser i awdurdodau lleol fel Torfaen a chynnig gwasanaeth gwell. Mae llyfrgelloedd Torfaen hefyd yn aelodau allweddol o fentrau megis Books for You ar draws De-ddwyrain Cymru ac mae ganddynt aelodaeth Undod y DU a systemau benthyciadau llyfrgell.

"We are very much joined up with Welsh libraries and national libraries for loans across the UK. If anyone wants a book, there's not many titles we can't get hold of one way or another." **Aelod staff**

Mae'r mentrau hyn yn darparu cysylltiadau agosach i Dorfaen i lyfrgelloedd eraill ac yn galluogi llyfrgelloedd Torfaen i ddarparu gwasanaeth benthycia llyfrau o ansawdd uwch, gyda mwy o ddetholiad o lyfrau ar gael i'w benthycia. Mae aelodau'r cyhoedd yn gwerthfawrogi hyn gydag un unigolyn yn nodi'n benodol, *"The requesting books from other authorities in the area is excellent."* Amlygodd gwasanaethau llyfrgell cyfagos ansawdd y partneriaethau sy'n bodoli rhwng gwahanol awdurdodau a'r pwyslais a roddir ar weithio ynghyd i wella gwasanaethau llyfrgell ar gyfer pob dinesydd.

Felly mae'r strategaeth yn rhoi ymgysylltiad parhaus â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynnal a gwella gwasanaethau llyfrgell i drigolion Torfaen yn hollbwysig.

Mae gan y rhain y potensial parhaus i leihau rhai costau gwasanaeth tra'n rhoi'r cyfle i rannu arferion da a gwella gwasanaethau. Nododd rhanddeiliaid hefyd gyfleoedd i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a Chynghorau Cymuned a'r sector gwirfoddol i ffurfio 'Grŵp Cyfeillion y Llyfrgell' fel rhan o'r dull partneriaeth hwn.

2.6 Adnoddau

Wrth ystyried gwasanaethau ac adnoddau cyfredol Llyfrgelloedd Torfaen, cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan rhanddeiliaid a staff. Cydnabu'r holl unigolion hyn y pwysau ariannol sydd ar y Cyngor ar hyn o bryd a mynegodd rhai rhanddeiliaid amheuaeth a ellir cynnal yr holl wasanaethau a ddarperir ar draws y tri safle llyfrgell ar gyllideb is. Mynegodd eraill bryderon ynghylch toriadau a fydd yn cael effaith negyddol ar ansawdd ac ehangder y gwasanaeth personol y mae llyfrgelloedd yn ei ddarparu ac yn arbennig ar rai o'r grwpiau mwyaf bregus sy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau.

2.6.1 Stoc llyfrau

Amlinellodd y staff bod angen stoc gytbwys a chyfoes ar lyfrgelloedd a nododd fod gan Dorfaen eisoes un o'r isaf yng Nghymru, ffigwr a gadarnhawyd yn Adroddiad Asesiad Blynyddol 2016-17 diweddaraf. Cyfeiriodd staff a rhanddeiliaid at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn dros y tymor canolig, gan dynnu sylw at astudiaethau diweddar yn cyfeirio at amlder defnydd cwsmer galw heibio. Amlygodd staff hefyd bwysigrwydd cynnal gwasanaeth o ansawdd, perthnasol a hygyrch, gydag ystod eang o stoc, gan nodi y bydd 'pobl yn parhau i ddod os yw pethau'n gyfoes'.

Mae ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn dangos pwysigrwydd gwasanaeth benthycu llyfrau llyfrgelloedd Torfaen. Dywedodd 93.4% o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth benthycu llyfrau yn bwysig iawn a dywedodd 5.2% arall ei fod yn eithaf pwysig. O ran barn y cyhoedd am y dewis o lyfrau yn y llyfrgelloedd, roedd 72.2% o'r farn ei fod yn dda iawn, roedd 23.2% o'r farn ei bod yn eithaf da, dywedodd 4.4% ei fod yn iawn a llai nag 1% yn weddol wael neu'n wael iawn. Er bod yr ymatebion hyn yn awgrymu bod y cyhoedd yn fodlon ar hyn o bryd gydag ystod ac ansawdd y cynnig, roedd nifer o sylwadau ansoddol ychwanegol yn awgrymu y gellid gwella hyn.

2.6.2 Oriau agor

Ar hyn o bryd mae oriau agor llyfrgelloedd Torfaen yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyriodd staff a nifer o rhanddeiliaid nad oes fawr o le i leihau ymhellach os yw Torfaen yn bwriadu parhau i fod yn ymrwymedig i wasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth effeithlon, o ansawdd uchel. Ystyriodd rhanddeiliaid a staff felly y dylai mwy o ffocws fod ar sicrhau bod gan bob un o'r tri safle oriau agor sy'n cyd-fynd â'i gilydd ac anghenion eu cwsmeriaid. Yn fwy penodol, cynigiwyd bod o leiaf dau allan o'r tair llyfrgell ar agor ar unrhyw ddiwrnod penodol.

O'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, nodwyd barn gymysg mewn perthynas ag oriau agor y llyfrgelloedd. Awgrymodd rhai o'r cyhoedd leihau'r oriau agor, a gofynnodd eraill am gynydd yn yr oriau agor. Fodd bynnag, ymddengys bod opsiwn o leihau oriau agor

ychydig yn fwy ffafriol na chau unrhyw un o'r tri safle llyfrgell ar draws Torfaen. Awgrymodd rhai aelodau o'r cyhoedd newid yn yr oriau agor yn hytrach na lleihad neu gynydd, ac mae hyn yn cysylltu â'r gwasanaeth cyflenwi ar draws y tair llyfrgell a nodir uchod.

2.6.3 Technoleg

Gwelwyd mynediad i gyfrifiaduron gan staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel rhan annatod o wasanaeth llyfrgelloedd. Gwneir cryn ddefnydd o'r cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir, yn enwedig gyda chyflwyno Credydau Cynhwysol.

Access to computers is invaluable, particularly at the moment with the introduction of universal credits and for job searching. Customers can't get this service anywhere else in the town centre. A lot of people don't have access to a computer at home.

Aelod staff

Nododd yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd fod 83.1% o'r ymatebwyr o'r farn bod mynediad at gyfrifiaduron naill ai'n bwysig iawn (63.8%) neu'n wasanaeth eithaf pwysig (19.3%) y mae'r llyfrgelloedd yn ei gynnig. Yn ychwanegol, dywedodd aelodau'r cyhoedd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth TG a ddarperir gan staff y llyfrgell, gydag un unigolyn yn dweud, *"Giving assistance on the computer is so essential for the elderly to keep in touch and sort out technical problems."*

Ystyriwyd bod technolegau newydd gan ystod o randdeiliaid a staff gyda'r potensial i wella gwasanaethau, gan ddarparu buddsoddiad i gefnogi'r broses hon. Mae llyfrgelloedd Torfaen yn cysylltu â chymorth Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol ac wedi cymryd rhan mewn darparu e-lyfrau a chomics fel ffordd o hyrwyddo dysgu a llythrennedd i dargedu grwpiau, yn enwedig pobl ifanc. Mae TG hefyd yn elfen annatod o ddarparu gweithgareddau cynhwysiad cymdeithasol digidol eraill, sydd eto wedi'i anelu at y rhai mwyaf bregus. Ystyrir bod Torfaen yn gwneud cynnydd yn y maes hwn gan randdeiliaid ac mae hwn yn faes a nodwyd ar gyfer cymorth pellach yn y strategaeth yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at gyfleusterau hunan-wasanaeth, a ddefnyddir ar hyn o bryd yn llyfrgell Blaenafon fel opsiwn i'w weithredu ymhellach, fel y trafodwyd mewn cyfarfodydd Craffu blaenorol. Gallai'r model hwn gyfrannu at ymestyn oriau agor llyfrgelloedd gyda chostau lleiaf posibl a nododd rhai rhanddeiliad bod y cyfleusterau hyn wedi'u cyflwyno mewn llyfrgelloedd eraill yn y DU, gan arwain at arbedion cost.

Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai rhanddeiliad a llawer o staff fod siarad â staff y llyfrgell yn rhan hanfodol o'r rhyngweithio cymdeithasol a gefnogir gan llyfrgelloedd. Felly, pwysleisiwyd na ddylai opsiynau hunan-wasanaeth gael eu hystyried yn lle lefelau staffio effeithiol. Fodd bynnag, roedd cytundeb cryf bod gan y dechnoleg hon y potensial i wella rhai gwasanaethau a gwneud pethau'n haws i gwsmeriaid, e.e. hunan gofnodi llyfrau i mewn ac allan.

"New technologies can be part of any new offer, but roles and responsibilities must be clarified." **Rhanddeiliad**

Mynegwyd barn gymysg gan ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â chyfleusterau hunan-wasanaeth, gyda rhai o blaid y syniad ac eraill ddim. Mae hyn yn awgrymu y byddai cyfleuster hunan-wasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan rai o'r cyhoedd, ond byddai'n well gan eraill ryngweithio wyneb yn wyneb â staff y llyfrgell. Mae'r sylwadau isod gan ddau aelod o'r cyhoedd yn profi'r pwynt hwn.

"Make it easier to return books by installing a self-service machine which allows people to renew/borrow books by using existing database. This machine can scan the barcode and simply return/renew without the hassle of queuing." **Aelod o'r cyhoedd**

"It's nice to talk to someone who is friendly and helpful-not have to fight machines-when you are older." **Aelod o'r cyhoedd**

Gan ystyried y safbwyntiau hyn yn ymwneud ag adnoddau a thechnoleg llyfrgell, mae'r strategaeth felly'n canolbwyntio ar gynnal stoc o ansawdd a chyfoes lle bo modd ac yn ymrwymo i set gyfatebol o oriau agor ar draws y tri safle. Gall hyn olygu rhai newidiadau i'r amseroedd agor, ond gellid gwrthbwysu hyn trwy gyflwyno cyfleusterau hunan-wasanaeth i gefnogi agoriad posibl hwyr neu benwythnos ar gyfer benthyca llyfrau, sy'n parhau i fod yn wasanaeth allweddol a mwyaf gwerthfawr ar gyfer dinasyddion.

2.7 Staffio a threfniadau gwirfoddoli

Ystyrir staff llyfrgell hyfforddedig, cymwysedig da gan randdeiliaid a'r cyhoedd fel rhan annatod o wasanaeth llyfrgell o safon, a dywedwyd bod eu harbenigedd yn hanfodol i gynnal hyder y cyhoedd a defnyddio'r gwasanaeth.

O ran barn y cyhoedd am y gwasanaeth a ddarperir gan staff yn llyfrgelloedd Torfaen, roedd 92.9% o'r farn ei fod yn dda iawn, roedd 5.4% o'r farn ei fod yn eithaf da, dywedodd 1.6% ei fod yn iawn a llai nag 1% ei fod yn weddol wael neu'n wael iawn. At hynny, dywedodd llawer o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd sut mae staff llyfrgelloedd Torfaen yn gyfeillgar, yn gymwynasgar, yn wybodus ac yn addysgiadol. Gwelwyd hyn fel y dylanwad mwyaf ar brofiadau cadarnhaol y cyhoedd o wasanaethau llyfrgell yn Nhorfaen.

"The library staff are without a doubt one of the jewels of the library system. They go above and beyond to help us in anything we need." **Aelod o'r cyhoedd**

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cael help gydag ymholiadau, gyda 93% o ymatebwyr yn nodi bod hyn naill ai'n wasanaeth pwysig iawn (75%) neu eithaf pwysig (18%) y mae'r llyfrgelloedd yn ei gynnig.

"The staff all have great customer service skills and always on hand to advise with book choices etc." **Aelod o'r cyhoedd**

Ar gyfer rhanddeiliad gyda phrofiad o staffio llyfrgell, ffocws allweddol yw sicrhau cydbwysedd rhwng uwch staff, sy'n gwneud penderfyniadau strategol, gyda chefnogaeth cynorthwyyr llyfrgell, sydd wedi'u hyfforddi'n dda mewn gwasanaethau cwsmeriaid. Ffocws arall yw sicrhau bod gan staff gyfleoedd i gael mynediad i DPP parhaus. Nododd staff llyfrgell Torfaen fod gwasanaethau rheng flaen yn arbennig o bwysig ac ar hyn o bryd mae lefelau isel o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

"I don't think it's given credit for how skilled a job it is. It's not just a case of putting books on a shelf and putting them in order, you've got to know a little bit about your subject, you've got to understand what people want, you've got to find it, you've got to know the processes. Most of them have a love of literature and information sharing, and I think they are dedicated. I don't think just anybody could come in and do it." **Rhanddeiliad**

Cynigiodd sawl rhanddeiliad a rhai aelodau o'r cyhoedd y defnydd o wirfoddolwyr i gefnogi gwasanaethau llyfrgell. Er enghraifft, awgrymodd un aelod o'r cyhoedd *"make more use of volunteers to check books in and out, delivering reading groups."* Cytunodd y staff bod rolau i wirfoddolwyr a gallant ddarparu 'gwerth ychwanegol'; yn enwedig ar gyfer cynlluniau darllen, yn ogystal â chwarae rhan bwysig mewn cynlluniau symudol.

Serch hynny, tynnodd staff sylw at bryderon ynghylch sut y bydd gwirfoddolwyr yn effeithio ar forâl staff a'r angen parhaus ar gyfer staff proffesiynol gyda'r hyder i wneud penderfyniadau a darparu gwasanaeth da. Os yw gwirfoddolwyr i gael eu hintegreiddio'n llwyddiannus i wasanaethau llyfrgell yn Nhorfaen, roedd staff a rhai rhanddeiliad o'r farn bod angen nodi'r hyn y mae gofyn i wirfoddolwyr ei wneud mewn llyfrgelloedd a sut i wneud y defnydd gorau ohonynt.

"They (volunteers) can't replace librarians but they can enable them to focus on their core roles and help libraries deliver other services. Community Groups can keep libraries going but there is not the same level of professional services and it is essentially just giving out books." **Rhanddeiliad**

Mae'r strategaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd staff medrus a chymwysedig i ddarparu gwasanaethau llyfrgell ar draws y tri safle yn Nhorfaen. Mae hefyd yn gweld rôl i wirfoddolwyr wrth gefnogi agweddau ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, fe wneir penderfyniadau ynghylch lefel y staffio ar draws llyfrgelloedd yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol ac unrhyw newidiadau i oriau agor. Mae'r strategaeth yn cymeradwyo trefniant staffio cytbwys o staff rheng flaen ac uwch staff lle mae adnoddau'n caniatáu.

2.8 Casgliadau cyffredinol yr ymchwil

Ar gyfer rhanddeiliad a staff, roedd ymwybyddiaeth gref o'r heriau niferus sy'n wynebu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn Nhorfaen. Cydnabuwyd bod angen i unrhyw strategaeth newydd ddatblygu ffyrdd effeithiol o weithio ar gyfer y llyfrgelloedd, i nodi'r hyn y gallant ei wneud yn wahanol a sut y gallant gyfrannu'n effeithiol at CP3 a pholisïau economaidd, iechyd, addysg a chymdeithasol cenedlaethol ehangach.

I rai rhanddeiliad, mae'r cysylltiadau i CP3 yn hollbwysig. Roeddent yn amlinellu y dylai llyfrgelloedd fod yn rhan annatod o gynllun twf ac unrhyw agenda trawsnewidiol sy'n digwydd ym mwrdeistref sirol Torfaen. Ar gyfer y rhanddeiliad hyn, mae'r ffocws hefyd ar werth ychwanegol llyfrgelloedd i gynnydd economaidd a chymdeithasol y fwrdeistref, sut maent yn gwasanaethu dinasyddion a sut y maent yn ategu gwasanaethau statudol eraill.

"The public is very attached to buildings and staff. Libraries should be for everybody. This process is about future proofing them, to support them to deliver services."

Rhanddeiliad

Ystyrir bod profi'r gwasanaeth llyfrgell yn Nhorfaen yn y dyfodol trwy strategaeth newydd felly yn ganolbwynt allweddol i'r Cyngor. Ar gyfer rhanddeiliad, mae hyn yn golygu y dylai unrhyw strategaeth gymryd golwg tymor hwy ar sut y gellir cynnal y gwasanaeth i ddiwallu anghenion parhaus a darparu ar gyfer holl ddinasyddion y fwrdeistref sirol. Mae cydnabyddiaeth glir ymysg rhanddeiliad a staff ynghylch y sefyllfa ariannol bresennol yn golygu bod cefnogaeth i ddefnyddio technolegau newydd i weithio'n fwy effeithlon ynghyd â phartneriaethau i rannu gwasanaethau, gan integreiddio llyfrgelloedd i wasanaethau cwsmeriaid Torfaen ar draws ystod o feysydd megis ieched, sgiliau, digidol a datblygiad canol trefi.

Mae sicrhau dyfodol llyfrgelloedd Torfaen hefyd yn gofyn am gydnabod wyneb blaen y gwasanaethau, y cyd-destun lleol a'r bobl sy'n defnyddio'r llyfrgell. Mae'n ymwneud â lleoli a brandio a chwrdd â blaenoriaethau CP3 y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn integredig ac yn cyd-fynd ag ef. Ar gyfer rhanddeiliad, mae'n rhaid i lyfrgelloedd yn Nhorfaen barhau i weithio'n lleol ond ystyried opsiynau a chyfleoedd rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer cyllid o ffynonellau eraill. Gall llyfrgelloedd barhau i fod yn rym mewn sgiliau digidol, ffyniant, ieched a llesiant ond mae hyn yn gofyn am wasanaeth hyfyw ac o safon ac roedd cefnogaeth gref ar draws rhanddeiliad, staff a defnyddwyr am unrhyw strategaeth newydd i gefnogi'r broses hon.

"I think the public feel that the library belongs to them. And I think they value it...It's one of those things where people never talk about it or appreciate it until they haven't got it."

Rhanddeiliad

3. Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen 2018-2023

Ein Gweledigaeth, Egwyddorion Allweddol a'n Hamcanion

3.1 Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn diffinio gweledigaeth ac amcanion Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor (CP3), yn enwedig o ran codi cyrhaeddiad addysgol a chefnogi trigolion mwyaf bregus Torfaen. Mae'n nodi agenda rhagweithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn adeiladu ar ei gryfderau cydnabyddedig ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, er mwyn bodloni anghenion trigolion yn y ffordd fwyaf effeithiol yng nghyd-destun llai o adnoddau ariannol.

3.2 Ein gweledigaeth

Ein Gweledigaeth yw darparu gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth ragweithiol, yr 21ain ganrif a fydd yn gwella bywydau trigolion Torfaen ac yn hyrwyddo eu llesiant, trwy ddarparu'r canlynol:

- Gwasanaeth sy'n ysbrydoli plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fwynhau darllen ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau;
- Gwasanaeth sy'n adlewyrchu anghenion a chyfansoddiad cymunedau Torfaen, gan ddarparu ystod o wasanaethau cymorth i grwpiau ac unigolion;
- Gwasanaeth sy'n cynnig mynediad hawdd i wasanaethau eraill y Cyngor sy'n gwasanaethu'r cyhoedd a chyngor a gwybodaeth i drigolion;
- Gwasanaeth sy'n gwneud cyfraniad go iawn i hybu iechyd a llesiant trigolion;
- Gwasanaeth sy'n cynnig llyfrgell croesawgar, diogel ac yn darparu mynediad i gyfleusterau modern a thechnolegau newydd ac yn cefnogi darparu gwasanaeth arloesol;
- Gwasanaeth a ddarperir gan dimau o aelodau staff medrus, proffesiynol a fydd yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a sefydliadau eraill i gefnogi mynediad at adnoddau llyfrgell a darparu ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd dysgu;
- Gwasanaeth cost-effeithiol a ddefnyddir yn dda ac yn ymatebol i anghenion cwsmeriaid sy'n newid a thechnolegau ac adnoddau sydd ar gael.

Yn hanfodol i'r gwasanaeth mae ymrwymiad i uchafu rôl y llyfrgelloedd fel canolbwynt ar gyfer cymunedau a datblygiad personol.

Bydd gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu cynnig cyffredinol ac ystod eang o wasanaethau cymorth cymunedol / gwybodaeth mewn mannau llyfrgell corfforol - yn ein tri safle presennol yng Nghwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon - ac ar draws yr ystod lawn o lwyfannau digidol a rhithwir.

Lle na all pobl ymweld â'n tri safle, byddwn yn eu cynorthwyo a'u galluogi i gael mynediad i'r gwasanaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys darparu gwasanaethau ar-lein a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gwasanaethau hygyrch.

Bydd ein llyfrgelloedd a'n gwasanaeth gwybodaeth yn gwasanaethu pob rhan o'r gymuned, gan ganolbwyntio adnoddau i ble y mae eu hangen fwyaf ac y gallant fod o fudd mwyaf, gan gynnwys:

- Ymgysylltu â chymunedau a phobl ddifreintiedig: Bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i gyfoethogi a gwella ansawdd eu bywyd, er enghraifft cefnogi ceiswyr gwaith wrth chwilio am waith;
- Dau ben y sbectrwm oedran - plant a phobl hŷn: Bydd y gwasanaeth yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi camau cyntaf plant wrth wrando ar storïau a dysgu darllen, i gefnogi pobl hŷn wrth ddefnyddio technolegau newydd ac wrth ddarparu ystod o wasanaethau iechyd a llesiant "ataliol" cymunedol a chyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol;
- Yn unol ag ymrwymiad CP3 i gefnogi'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas, bydd y gwasanaeth yn parhau i ddarparu lle diogel i ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a'u cefnogi'n effeithiol.

3.3 Ein hegwyddorion

Bydd set graidd o egwyddorion yn sail i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r egwyddorion craidd hyn fel a ganlyn:

Darparu gwasanaeth o safon uchel i bawb sy'n ysbrydoledig ac ysgogol

Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, hygyrch a chyfeillgar i'r teulu gan sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion unigolion a chymunedau anodd eu cyrraedd, difreintiedig a bregus.

Ehangu cyfranogiad

Byddwn yn cefnogi anghenion dysgu oedolion a phlant, gan ddatblygu ffyrdd arloesol o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgu ffurfiol, anffurfiol, datblygu sgiliau a gwirfoddoli.

Partneriaeth a chydweithrediad

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid a byddwn yn meithrin perthynas â'n hawdurdodau cyfagos - yn benodol y rheini yn Rhanbarth Dinas Caerdydd - i gyflawni arbedion maint a chynyddu cyfleoedd ariannu.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â gwasanaethau eraill y cyngor i alluogi llyfrgelloedd i chwarae rhan allweddol fel canolfannau cymdogaeth a chymunedol.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos ag Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) i fodloni canllawiau a safonau statudol a chymryd rhan mewn mentrau llyfrgell rhanbarthol a chenedlaethol.

Cynhwysiant digidol

Byddwn yn parhau i ddarparu mynediad ar-lein am ddim trwy ein cyfrifiaduron a dyfeisiau rhyngwrwyd eraill, cefnogaeth Sgiliau TG Wi-Fi cyhoeddus am ddim trwy sesiynau galw heibio a ddarperir gan staff y llyfrgell i gyfrannu at gyflwyno cynhwysiant digidol yng nghymunedau Torfaen.

Byddwn yn sicrhau bod gan yr "eithriedig yn ddigidol" fynediad am ddim a lleol i wasanaethau a sicrhau bod ein gwasanaethau yn cyd-fynd â datblygiad technolegol mewn darpariaeth gwybodaeth, dysgu anffurfiol a chyfleoedd hamdden.

Byddwn yn defnyddio technoleg i'n helpu i ddod yn fwy effeithlon a gwella ein darpariaeth gwasanaeth.

Darparu seilwaith mentrus a chynaliadwy

Mae angen inni addasu a meddwl y tu hwnt i ddulliau effeithlonrwydd blaenorol i gymryd agwedd fwy strategol tuag at ddarparu gwasanaethau'n lleol, gan gynnwys:

- Cydgysylltu cryfach a gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig lle gellir cyflawni arbedion graddfa glir;
- Mwy o ddefnydd a chymhwyso presenoldeb digidol a thechnoleg sy'n hawdd ei ddefnyddio;
- Cydleoli ac integreiddio gwasanaethau'r cyngor a phartneriaid eraill yn y tair llyfrgell yn y dyfodol, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n gwella dysgu, a datblygu sgiliau a chefnogi preswylwyr bregus.

Bydd ein tair llyfrgell yn ddeniadol, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn addas at ddibenion ac yn cael eu cydnabod fel cyfraniad cadarnhaol i ymrwymiad y Cyngor i adfywio canol trefi, dysgu gydol oes a chymunedau iach.

Byddwn yn parhau i fabwysiadu ymagwedd fasnachol at ddarparu gwasanaethau yn ogystal â nodi cyfleoedd i sicrhau cymorth ariannol ychwanegol fel rhan o'n nod i ddatblygu cynhyrchu incwm lle bo modd. Bydd arloesi o fewn ein gwasanaethau yn rhan allweddol o'r dull hwn.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen: Ein Blaenoriaethau

3.4 Tair llyfrgell Torfaen

Bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen yn parhau i gael ei gyflwyno yn y tri lleoliad daearyddol allweddol yn y fwrdeistref, sef Blaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl.

Cyflenwir y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth gan Gyngor Bwrdeistref Torfaen, ond byddwn yn parhau i archwilio partneriaethau newydd, yn enwedig y rhai a all ddangos gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd.

Bydd Llyfrgell Cwmbrân yn parhau i gael ei chydnabod fel llyfrgell strategol y fwrdeistref o ran adnoddau a gweithgareddau, tra bydd Blaenafon a Phont-y-pŵl yn parhau i ategu gwasanaethau Cwmbrân a gwasanaethu eu cymunedau lleol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau eraill y cyngor a phartneriaid lleol i sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn chwarae rhan allweddol fel canolfannau gwybodaeth hygyrch ac arbenigedd.

Bydd ein llyfrgelloedd yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ystod ehangach o wasanaethau'r cyngor sy'n wynebu cwsmeriaid, sy'n gysylltiedig ag amcanion a nodau CP3 ac anghenion trigolion.

Byddwn yn sicrhau bod yr adeiladau yn groesawgar, yn hygyrch ac yn addas ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau cymunedol.

Byddwn yn cadw ein tair llyfrgell wrth galon eu cymunedau trwy barhau i ddarparu'r gwasanaethau gwerth cyhoeddus trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau, partneriaethau gyda grwpiau defnyddwyr, a chysylltiadau ag ysgolion a cholegau.

Byddwn yn sicrhau bod gan bob un o'n tair llyfrgell oriau agor sy'n cyd-fynd â'i gilydd ac anghenion eu cwsmeriaid ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r holl breswylwyr trwy'r wythnos.

Byddwn yn ymrwmo i ddatblygu ymhellach opsiynau hunan-wasanaeth y tu hwnt i Flaenafon a chyflwyno'r dechnoleg yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl. Gallai unrhyw ddiwygiadau yn yr oriau agor yn y dyfodol ganolbwyntio ar y posibilrwydd o agor hwyr gyda'r penwythnos ar gyfer benthyciadau llyfrau, sy'n parhau i fod ein gwasanaeth mwyaf gwerthfawr.

3.5 Ein gwasanaeth ac adnoddau

Bydd ein gwasanaethau yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, addysgol, diwylliannol ac economaidd ein holl gymunedau yn Nhorfaen. Rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu heriau sylweddol o ran lle ac adnoddau, ond rydym yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaeth sy'n bodloni anghenion ein trigolion lle bynnag y bo modd. Felly mae ein blaenoriaethau gwasanaeth fel a ganlyn:

Llinyn 1: Adnodd i bawb

Byddwn yn parhau i adeiladu casgliadau a stoc llyfrau o ansawdd uchel, amrywiol a chyfoes ar gyfer yr holl grwpiau / oedran defnyddwyr a sicrhau bod gan gwsmeriaid fynediad i'r offer dysgu diweddaraf.

Drwy ein llyfrgell strategol yng Nghwmbrân byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau

ymchwil a chyfeirio i gwsmeriaid, gan gysylltu â llyfrgelloedd eraill yn y fwrdeistref a de-ddwyrain Cymru i wella'r gwasanaethau hyn lle bo modd.

Byddwn yn darparu rhaglenni a chyfleoedd dysgu o ansawdd uchel a pherthnasol mewn ymateb i fuddiannau cymunedol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cryfderau wrth ddarparu cyfleoedd i drigolion ieuengaf Torfaen (a'u teuluoedd) ddatblygu eu medrau llythrennedd, ymdeimlad o chwarae a chariad tuag at ddarllen trwy ein gweithgareddau.

Byddwn yn archwilio technolegau newydd i allu cynnig presenoldeb hygyrch ac ar-lein dibynadwy a gallu darparu dulliau lluosog o fynediad i wasanaethau.

Byddwn yn galluogi mynediad i ystod o adnoddau gwybodaeth ar-lein ac yn caniatáu i aelodau'r llyfrgell reoli eu cyfrifon, adnewyddu a gofyn am deitlau a llawrlwytho e-lyfrau, teitlau e-sain ac e-gylchgronau.

Anelwn at gefnogi mentrau iaith Gymraeg a sicrhau bod ein gwasanaeth yn ceisio diwallu anghenion cwsmeriaid.

Llinyn 2: Iechyd a Llesiant

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cryfderau wrth gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn Nhorfaen gyda chynghor i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain trwy ddarparu gwasanaethau gwybodaeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau allgymorth cyflenwol, yn arbennig y gwasanaeth Llyfrgell Cartref. Bydd trafodaethau yn y dyfodol yn digwydd gydag awdurdodau cyfagos i asesu a ellid darparu'r fath ddarpariaeth ar y cyd.

Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd ar gyfer partneriaeth effeithiol gyda grwpiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a chyda sefydliadau iechyd a llesiant, gan ddatblygu ymagwedd leol gyfannol tuag at ddysgu a llesiant meddyliol a chorfforol.

Llinyn 3: Annog datblygiad sgiliau a thwf economaidd

Byddwn yn gweithio gydag adrannau eraill y cynghor ac asiantaethau gwaith lleol i ddatblygu ymagwedd fwy ffurfiol i gefnogi ceiswyr gwaith, gan gynnwys clybiau swyddi rheolaidd, gweithdai sgiliau digidol penodol, ysgrifennu CV a gwahodd cyflogwyr i'n llyfrgelloedd.

Byddwn yn nodi anghenion gwybodaeth a sgiliau ein cymuned fusnes - cyn cychwyn, cychwyn busnesau a busnesau sy'n tyfu - ac yn ceisio ac yn adeiladu partneriaethau newydd gyda'n cydweithwyr mewn Datblygu Economaidd a Chymunedau sy'n cynyddu effaith llyfrgelloedd i gefnogi twf busnes.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i gynorthwyo pobl, yn enwedig grwpiau bregus a cheiswyr gwaith, i fynd ar-lein a bod yn hyderus wrth ddefnyddio adnoddau digidol.

3.6 Gweithio mewn partneriaeth

Byddwn yn gweithio gydag adrannau eraill Cyngor Torfaen, awdurdodau llyfrgelloedd cyfagos a Llywodraeth Cymru i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer dylunio a darparu gwasanaethau yn effeithlon a lleihau costau.

Bydd Torfaen yn chwarae rhan weithredol mewn unrhyw 'weithgor grŵp llyfrgelloedd rhanbarthol' i adolygu cyfleoedd cydweithio yn y dyfodol, rhannu arferion da ac ystyried unrhyw gyfleoedd a allai godi yn y dyfodol

Bydd Torfaen yn parhau i chwarae rhan weithgar yng nghonsortiwm Prynu Llyfrau Cymru Gyfan; cynlluniau e-fenthyca mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill megis Borrowbox a chynllun benthychiad rhyng-lyfrgell Books4U i ganiatáu i drigolion gael gwell mynediad i lyfrau.

Byddwn yn gweithio gyda Choleg Gwent i archwilio cyfleoedd rhannu adnoddau a gynigir gan gampws newydd y chweched dosbarth sydd i agor yng Nghwmbrân yn 2020.

Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid ehangach megis Cyngorau Cymunedol i archwilio datblygu Grŵp 'Cyfeillion y Llyfrgell' i gefnogi gweithgareddau cynhyrchu refeniw, cynlluniau gwirfoddoli addas a gweithgareddau eraill.

Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer partneriaeth â sefydliadau lleol a chenedlaethol, mewn ystod o feysydd a amlygir gan y cyhoedd fel rhai pwysig, megis:

- Cynyddu mynediad a defnydd plant o lyfrgelloedd;
- Cefnogi sgiliau, cyflogaeth a chyfleoedd dilyniant;
- Cynyddu gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol trwy lyfrgelloedd.

Bydd llyfrgelloedd Torfaen yn rhan o system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan i hyrwyddo effeithlonrwydd pellach a bod yn rhan o ddull cenedlaethol o ddarparu gwasanaethau.

3.7 Staffio

Mae staff proffesiynol, cymwysedig yn ganolog i lwyddiant y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth yn Nhorfaen a byddwn yn parhau i ddarparu'r rhyngweithio personol a werthfawrogir gan gwsmeriaid.

Byddwn yn sicrhau trefniant staffio cytbwys o staff rheng flaen ac uwch ar draws y tair llyfrgell yn Nhorfaen er mwyn sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaeth.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod staff yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod eu sgiliau mor gyfredol â phosibl, e.e. sgiliau digidol a'u galluogi i symud ymlaen o fewn eu maes.

Rydym yn gwerthfawrogi ein gwirfoddolwyr wrth gefnogi rhai o'n gwasanaethau ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu a gofalu am ein sylfaen wirfoddoli. Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol cyfagos, byddwn yn dylunio fframwaith ar eu cyfer i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

3.8 Cynhyrchu refeniw ac adnoddau

Byddwn yn archwilio cyfleoedd parhaus ar gyfer cynhyrchu refeniw a gweithio gydag adrannau eraill y cyngor i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a rhannu adnoddau lle mae cyfleoedd yn bodoli.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi ffynonellau cyllid newydd sy'n seiliedig ar brosiectau i gefnogi a gwella ein darpariaeth gyfredol a datblygu mentrau penodol i ymgysylltu â'n grwpiau targed o ddefnyddwyr.

Byddwn yn cyflwyno cyfleusterau benthyca llyfrau hunan-wasanaeth yng Nghwibrân a Phont-y-pŵl (i ategu'r gwasanaeth a gyflwynwyd eisoes ym Mlaenafon) i hyrwyddo ymagwedd arloesol, hyblyg at y gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei werthfawrogi. Bydd y system hon hefyd yn rhyddhau amser staff i gyflwyno gweithgareddau eraill.

3.9 Monitro a gwerthuso

Byddwn yn parhau i fonitro ein perfformiad yn ofalus a byddwn yn addasu ein systemau monitro perfformiad i adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd yn genedlaethol.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i asesu ein perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol a datblygu cynlluniau gweithredu i adeiladu ar lwyddiant a mynd i'r afael â gwendidau yn ein gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol (Ysbrydoli Dysgu i Bawb) i fesur a deall ein perfformiad ym meysydd mynediad, adnoddau, ansawdd ac effeithlonrwydd a chymharu ein perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill.

Byddwn yn datblygu ac yn defnyddio targedau SMART i sicrhau gwell perfformiad a chyflwyno gwasanaethau sy'n bodloni anghenion lleol.

3.10 Sut beth fydd llwyddiant yn 2023

Bydd y gwasanaeth yn dangos yn eglur bod ei weithgaredd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Bwrdeistref Sirol Torfaen, gyda chyfeiriad penodol at CP3 a strategaethau olynol.

Bydd y gwasanaeth llyfrgell yn bodloni holl hawliau craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r Cynnig Cynhwysol.

Bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn defnyddio technoleg newydd yn rhagweithiol i wella mynediad a phrofiad i'n cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth yn parhau i gefnogi dinasyddion Torfaen yn eu hanghenion sgiliau, dysgu ac iechyd a llesiant ac i fod yn ganolbwynt i gymunedau lleol.

Bydd staff proffesiynol, cymwysedig yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

Bydd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn wydn ac yn gydnabyddedig fel gwasanaeth sy'n darparu ansawdd, effeithlonrwydd a hygyrchedd; sy'n cynrychioli gwerth rhagorol am arian.

Bydd y gwasanaeth yn gweithio gydag ystod o bartneriaid lleol a chenedlaethol i wneud y gorau o effeithlonrwydd, ansawdd ac i ymgysylltu ag ystod eang o fentrau.

Bydd Dinasyddion Torfaen yn parhau i werthfawrogi, ymgysylltu a chael pleser o'u gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth.

4. Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen

Llinynnau Gweithgarwch / mewnbynnau	Camau Gweithredu	Adnoddau / Partneriaid		Canlyniadau	Monitro a Gwerthuso	Targedau SMART / amserlenni
Adnodd i Bawb	<p>Adeiladu stoc llyfrau o ansawdd uchel a chyfoes ar gyfer pob grŵp defnyddiwr / oedran.</p> <p>Darparu adnoddau ymchwil a chyfeirio i ddefnyddwyr.</p> <p>Darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel a pherthnasol mewn ymateb i fuddiannau cymunedol.</p> <p>Rhoi cyfle i drigolion ieuengaf Torfaen (a'u teuluoedd) ddatblygu eu medrau llythrennedd, ymdeimlad o chwarae a chariad at ddarllen.</p> <p>Cynnig presenoldeb ac adnoddau hygyrch ac ymddiriedol ar-lein a dulliau mynediad niferus i wasanaethau.</p>	<p>Cymryd rhan yng nghonsortium Prynu Llyfrau Cymru Gyfan; cynlluniau e-fenthyca gydag awdurdodau eraill megis Borrowbox a chynllun benthyciad rhyng-lyfrgell Books4U.</p> <p>Cymryd rhan yng Nghynllun Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan (LMS).</p> <p>Gweithio gyda llyfrgelloedd eraill yn y De-ddwyrain i rannu arferion da ac ystyried cyfleoedd yn y dyfodol.</p> <p>Cymryd rhan mewn mentrau llyfrgell rhanbarthol a chenedlaethol.</p>	→	<p>Parhau â'r ystod eang o weithgareddau dysgu a chymunedol yn unol ag anghenion ac adnoddau defnyddwyr.</p> <p>Cynyddu mynediad plant at, a defnydd o lyfrgelloedd, ac i ddeunyddiau dysgu o ansawdd.</p> <p>Cefnogi rhannu adnoddau a chyfnewid arferion da.</p> <p>Cynyddu gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol trwy lyfrgelloedd.</p> <p>Datblygu presenoldeb ar-lein mwy effeithiol a mynediad at dulliau amgen i wasanaethau.</p> <p>Systemau hunan-wasanaeth newydd yn eu lle yng Nghwmbrân a</p>	<p>Cwrdd â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a chanllawiau MALD.</p> <p>Parhau â'r system fonitro barhaus i asesu ymgysylltiad defnyddwyr â'r llyfrgell a gweithgareddau penodol a monitro dros amser.</p> <p>Ymweliadau gwefan, nifer yr e-fenthycwyr a defnyddwyr hunan-wasanaeth.</p> <p>Adrodd i SRS ar ansawdd a chynnal a chadw offer hunan-wasanaeth.</p> <p>Adborth staff.</p>	<p>Adroddiad Llythyr Asesiad gan LICC (blynyddol).</p> <p>Cwrdd â 18 hawl craidd MALD (blynyddol).</p> <p>Eitemau a fenthycwyd: 3,300 fesul 1000 o'r boblogaeth. Cynllun Tîm Ffynnon.</p> <p>Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn "dda iawn" neu'n "dda" yn gyffredinol (Blynyddol, dangosol).</p> <p>Canran y plant 7-16 oed sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod (Blynyddol,</p>

		<p>Buddsoddi mewn adnoddau ar-lein / modelau hunan-wasanaeth.</p> <p>Hyfforddiant staff i gefnogi systemau hunan-wasanaeth newydd ac i sicrhau parodrwydd stoc ar gyfer newid.</p>		<p>Phont-y-pŵl.</p> <p>Sgiliau gwell i staff.</p>		<p>dangosol).</p> <p>Benthyciadau e-lyfrau. Ffigurau a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar ran y consortiwm e-lyfr. (Misol, dangosol).</p> <p>Logiau galwadau desg gymorth.</p> <p>Ffurflenni gwerthuso hyfforddiant.</p>
Iechyd a Llesiant	<p>Cefnogi'r rhai mwyaf bregus yn Nhorfaen gyda chyngor i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.</p> <p>Darparu ystod o wasanaethau allgymorth cyflenwol, yn arbennig y gwasanaeth Llyfrgell Cartref, a grwpiau darllen a rennir therapiwtig gyda chymorth gwirfoddolwyr.</p> <p>Datblygu ymagwedd leol gyfannol at ddysgu a llesiant meddyliol a chorfforol.</p>	<p>Partneriaethau gyda grwpiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a chyda sefydliadau iechyd a llesiant.</p> <p>Gweithio gydag awdurdodau cyfagos i asesu a ellid darparu'r fath ddarpariaeth ar y cyd.</p> <p>Hyfforddiant i wirfoddolwyr.</p>	→	<p>Datblygu cynnig iechyd a llesiant cyfannol ar draws gwasanaethau yn Nhorfaen.</p> <p>Partneriaethau newydd gydag ACL a sefydliadau iechyd i gefnogi'r cynnig.</p> <p>Gwasanaethau iechyd a llesiant gwell, hygyrch i Dorfaen trwy lyfrgelloedd.</p> <p>Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a rhannu adnoddau i wneud cais am gyllid.</p>	<p>Bodloni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Nifer yr ymarferwyr / sefydliadau iechyd sy'n cefnogi'r cynllun.</p> <p>Gwneud cais am gynlluniau cyllido ychwanegol.</p> <p>Fframwaith ar gyfer gwirfoddolwyr a ddatblygwyd gydag awdurdodau lleol (2020).</p>	<p>Cyflwr y Genedl yn adrodd i'r Prif Weithredwr (Blynyddol).</p> <p>Swyddog Gwybodaeth a Chymorth Iechyd a Llesiant i gasglu data. Dangosol. Sefydlu data gwaelodlin (blynyddol).</p> <p>Cyflwyniadau PID (blynyddol) Yn dibynnu ar gytundeb rhanbarthol a sefydlu.</p>

				Ymchwilio i bartneriaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill i gefnogi gwirfoddoli ar draws dysgu ac iechyd.	Nifer y gwirfoddolwyr (blynyddol).	Wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i LICC (Targed dangosol, nid rhifiadol).
	<p>Datblygu ymagwedd fwy ffurfiol i gefnogi ceiswyr swyddi, gan gynnwys clybiau swyddi, gweithdai sgiliau digidol, ysgrifennu CV a gwahodd cyflogwyr i lyfrgelloedd.</p> <p>Nodi anghenion gwybodaeth a sgiliau cymuned fusnes Torfaen.</p> <p>Cynorthwyo pobl, yn enwedig grwpiau sy'n fregus a cheiswyr gwaith, i fynd ar-lein a bod yn hyderus wrth ddefnyddio adnoddau digidol.</p>	<p>Gweithio gydag adrannau eraill y cyngor ac asiantaethau gwaith lleol i nodi angen a datblygu adnoddau i gefnogi ceiswyr gwaith.</p> <p>Datblygu partneriaethau newydd gyda busnesau lleol sy'n cynyddu effaith llyfrgelloedd i gefnogi twf busnes.</p>	→	<p>Gwasanaethau cydgysylltiedig i geiswyr swyddi.</p> <p>Cyfleoedd i ymgysylltu â chyflogwyr.</p> <p>Datblygiad sgiliau ar gyfer y boblogaeth leol.</p> <p>Grwpiau mwyaf bregus yn defnyddio mwy o ddatblygiad sgiliau, dilyniant a chyfleoedd gwaith.</p>	<p>Nifer y cyflogwyr / sefydliadau cyflogwyr yn cefnogi'r cynllun (blynyddol).</p> <p>Cyfanswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth llyfrgell sy'n elwa ar hyfforddiant defnyddwyr strwythuredig neu anffurfiol.</p>	<p>Sefydlu gwaelodlin data (2018-2019).</p> <p>Targed: 31,500 (blynyddol).</p>
Cyflawni'r Strategaeth	Bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Torfaen yn parhau i gael ei gyflwyno ym Mlaenafon, Cwmbrân a Phont-y-pŵl.	Gweithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod llyfrgelloedd yn chwarae rhan allweddol fel canolfannau gwybodaeth ac		Bydd llyfrgelloedd yn bwynt cychwynnol ar gyfer ystod ehangach o wasanaethau'r cyngor sy'n wynebu cwsmeriaid, sy'n gysylltiedig ag	Datblygu a defnyddio mesurau perfformiad ac allbwn lleol i sicrhau gwell perfformiad a chyflwyno gwasanaethau.	Adroddiad Blynyddol Llythyr Aseiad gan LICC. (Medi, yn flynyddol) Targed 1%. Adroddiad blynyddol

	<p>Cyflwynir y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth gan Gyngor Bwrdeistref Torfaen.</p> <p>Bydd Llyfrgell Cwmbrân yn llyfrgell strategol bwrdeistref o ran adnoddau a gweithgareddau, tra bydd Blaenafon a Phont-y-pŵl yn parhau i ategu gwasanaethau Cwmbrân a gwasanaethu eu cymunedau lleol.</p>	<p>arbenigedd hygyrch. Trefniant staffio cytbwys o staff rheng flaen ac uwch ar draws y tair llyfrgell yn Nhorfaen er mwyn sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaeth.</p> <p>Cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau bod staff medrus a chyfleoedd dilyniant</p> <p>Gweithio gydag adrannau eraill y cyngor i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a rhannu adnoddau lle mae cyfleoedd yn bodoli.</p>		<p>amcanion CP3 ac anghenion cwsmeriaid.</p> <p>Mae llyfrgelloedd Torfaen yn groesawgar, yn hygyrch ac yn addas ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau cymunedol.</p> <p>Gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau.</p> <p>Datblygu ffynonellau cyllid newydd sy'n seiliedig ar brosiectau i wella ac ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol ac ymgysylltu â grwpiau targed.</p>	<p>Performiad yn erbyn safonau cenedlaethol a hawliau craidd MALD.</p> <p>Canran yr amser staff a wariwyd mewn hyfforddiant a datblygiad personol / proffesiynol.</p> <p>Mentrau newydd wedi'u datblygu.</p> <p>Adolygiad pum mlynedd o'r Strategaeth.</p>	<p>i LICC.</p> <p>Adroddiad Blynyddol Llythyr Asesiad gan LICC. Medi bob blwyddyn.</p> <p>Cofnodion y Tîm Rheoli Llyfrgell - Misol.</p> <p>Cynhyrchu adroddiad terfynol (2023).</p>
--	--	--	--	--	--	---